



Artistiaid Preswyl

Bydd Gwledd SYRCAS Pontio yn ysbrydoli tri artist ifanc preswyl; Llyr Evans o Lanallgo, Kelly-Sorcha Handy o Fachwen a Mabli Jones o Gerlan. Bydd y graddedigion diweddar o gwrs Sylfaen Celf a Dylunio Coleg Menai yn artistiaid preswyl yn ystod y wledd (18-27 Gorffennaf) a byddant yn mynd i berfformiadau, ymarferion a gweithdai - a fydd yn gyfle gwych iddynt gofnodi golygfeydd a synau rhyfeddol y syrcas gyfoes.

Yn y cyfnod cyn eu cyfnod preswyl, caiff detholiad o waith cwrs a llyfrau brasluniau'r artistiaid ifanc eu harddangos yma, ynghyd â ffilm fer a grëwyd gan yr artistiaid fel rhan o'u cwrs coleg, sy'n datgelu ffynonellau eu hysbrydoliaeth. Yn ystod y cyfnod preswyl, caiff yr arddangosfa ei diweddar i gynnwys gweithiau celf newydd a ysbrydolwyd gan wledd y syrcas, a bydd arddangosfa derfynol dros yr haf.

Cwrdd â'r artistiaid

Llyr Evans

Cafodd Llyr ei ddenu at y cyfle hwn oherwydd y botensial i ddod â phobl o gefndiroedd gwahanol ynghyd. Mae hynny'n ysbrydoliaeth iddo ac yn rhywbeth y bu'n ei archwilio mewn amrywiol ffyrdd yn ei waith, gan ddefnyddio ffotograffiaeth a dylunio mewn ffyrdd dyfeisgar i fynegi ei syniadau.

Bydd Llyr yn astudio Dylunio Graffig yn Ysgol Gelf Chelsea.

Kelly-Sorcha Handy

Ers oedd yn ifanc, mae Kelly-Sorcha wedi cadw dyddlyfr creadigol, gan gofnodi ei meddyliau, ei chynlluniau a'i hysbrydoliaeth greadigol. Ochr yn ochr â hyn, mae'n gweithio gyda brodwaith a thecstilau yn gofnod o'i harsylwadau o'r byd o'i chwmpas. Mae hi'n edrych ymlaen at gyfleu patrymau a lliwiau anhygoel y syrcas.

Bydd Kelly-Sorcha yn astudio ar y cwrs Artist: Dylunydd Gwneuthurwr yn Ysgol Gelf Caerdydd.

Mabli Jones

Mae Mabli yn bwriadu astudio effeithiau arbennig yn y brifysgol ac felly mae'n awyddus i'w thrwytho ei hun ym myd theatrig y syrcas. Mae ganddi ddiddordeb arbennig yn y modd y mae cynrychiadau'n cael eu cyflwyno - gan gynnwys y gwisgoedd a'r set, y goleuo a'r awyrgylch - sydd mor hanfodol i brofiad y gynulleidfa, yn ei thyb hi.

Bydd Mabli yn astudio Effeithiau 3D ar gyfer Perfformio a Ffasiwn yn London College of Fashion, UAL.

Artists in Residence

Pontio's Gwledd SYRCAS Feast will provide inspiration to three young artists in residence; Llyr Evans from Llanallgo, Kelly-Sorcha Handy from Fachwen and Mabli Jones from Gerlan. The recent graduates from Coleg Menai Foundation Art and Design course will be in residence during the feast (18 - 27 July) where they will access performances, rehearsals and workshops - providing them with the unique opportunity to document the sights and the sounds of this contemporary circus extravaganza.

In the lead-up to their residency a selection of the young artists coursework and sketchbooks will be exhibited here, alongside a short film created by the artists as part of their college course, revealing their sources of inspiration. Part way through the residency, the exhibition will be updated to include new artworks inspired by the circus feast, and a final exhibition will be showcased over the summer.

Meet the artists

Llyr Evans

Llyr was drawn to this opportunity due to its potential to bring together people from different backgrounds. This is something that inspires him and which he has explored in a variety of ways in his earlier work, using photography and design in inventive ways to express his ideas.

Llyr will study Graphic Design at Chelsea School of Art.

Kelly-Sorcha Handy

Since an early age, Kelly-Sorcha has kept a creative journal, recording her thoughts, plans and creative inspiration. Alongside this, she works with embroidery and textiles to record her observations of the world around her. She is looking forward to capturing the amazing patterns and colours associated with circus.

Kelly-Sorcha will study on the Artist: Designer Maker course at Cardiff School of Art.

Mabli Jones

Mabli plans to study special effects at university and so is eager to immerse herself in the theatrical world of circus. She is particularly interested in how productions are presented - from costumes to set, lighting and atmosphere - which she believes is critical to the audience's experience.

Mabli will study 3D Effects for Performance and Fashion at London College of Fashion, UAL.